

# Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Adran Achosion Brys, Ysbyty  
Bronglais, Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 28, 29 a 30 Gorffennaf 2025

Dyddiad cyhoeddi: 18 Rhagfyr 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: <https://www.agic.org.uk/>

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

|    |                                                                          |    |
|----|--------------------------------------------------------------------------|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom .....                                                  | 5  |
| 2. | Crynodeb o'r arolygiad .....                                             | 6  |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym .....                                             | 11 |
|    | • Ansawdd Profiad y Claf .....                                           | 11 |
|    | • Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....                               | 15 |
|    | • Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....                              | 21 |
|    | Y camau nesaf.....                                                       | 25 |
|    | Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ..... | 26 |
|    | Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....                               | 27 |
|    | Atodiad C - Cynllun gwella.....                                          | 31 |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Bronglais, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 28, 29 a 30 Gorffennaf 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd y tîm gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Fel rhan o'r arolygiad, gwnaethom gynnal ymarfer bwrdd gwaith o bell gan edrych ar gofnodion naw claf a fu yn yr Adran Achosion Brys, gydag anghenion amrywiol, dros y chwe wythnos flaenorol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 11 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff yn gweithio'n galed o dan amodau heriol yn aml, ac weithiau roedd materion yn ymwneud â llif cleifion i wardiau yn yr ysbyty yn effeithio ar eu hymdrechion. Er gwaethaf y pwysau hyn, roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch, ac roedd cyfrinachedd yn cael ei gynnal ar y cyfan. Roedd y staff yn gwneud pob ymdrech i leihau effeithiau gofal mewn coridorau drwy symud cleifion i ardaloedd mwy addas lle y bo'n bosibl. Dylai'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i leihau'r angen am ofal yn y coridorau.

Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y ffordd yr oedd y staff yn rhyngweithio â nhw, ac ar y gofal roeddent yn ei gael. Fodd bynnag, roedd oedi cyn rhyddhau cleifion o ardaloedd eraill o'r ysbyty weithiau yn golygu bod yr ardal mân anafiadau yn cael ei defnyddio fel ardal ar gyfer cleifion nad oedd lle iddynt yn yr adran achoson brys, ac roedd achosion o oedi cyn cael ymateb gan dimau arbenigol.

Gwelsom aelodau o'r staff yn siarad â'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd gwrtais, broffesiynol ac urddasol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Parhau â'r ymdrechion i leihau nifer y cleifion sy'n cael gofal yn y coridorau a sicrhau y caiff eu preifatrwydd a'u hurddas eu cynnal
- Sicrhau bod cleifion yn cael eu brysbennu'n brydlon wrth gyrraedd yr Adran Achosion Brys a bod proses uwchgyfeirio effeithiol ar waith pan fo amseroedd brysbennu yn cynyddu
- Parhau â'r ymdrechion i wella llif cleifion drwy'r adran ac ym mhob rhan o'r ysbyty ehangach
- Darparu hyfforddiant 'baner goch' i staff y dderbynfa er mwyn helpu i nodi cleifion â chyflyrau lle mae amser yn hollbwysig
- Parhau â'r ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu symud o ambiwlansys i mewn i'r Adran Achosion Brys mewn modd amserol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd rhyngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, ac roedd y staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol

- Roedd y staff yn gwneud pob ymdrech i drin y cleifion ag urddas, parch a thosturi, er gwaethaf y pwysau ar y gwasanaeth a phroblemau sylweddol o ran llif cleifion.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd heriau yn bodoli mewn perthynas â llif cleifion drwy'r adran. Roedd hyn yn deillio'n bennaf o oedi cyn rhyddhau cleifion o ardaloedd eraill o'r ysbyty, a oedd yn golygu nad oedd digon o welyau i symud cleifion iddynt.

O ganlyniad, roedd rhai cleifion yn treulio dros 36 awr yn yr adran. Fodd bynnag, dylid ystyried hyn yng nghyd-destun pwysau cenedlaethol ar adrannau achosion brys ac nid yw'n unigryw i Ysbyty Bronglais. Serch hynny, rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael eu brysbennu'n gyflym ar ôl iddynt gyrraedd yr adran, er mwyn cynnal eu diogelwch. Mae'r bwrdd iechyd yn ymwybodol iawn o'r materion parhaus ac mae'n parhau i ystyried mentrau gwahanol i wella llif cleifion yn yr ysbyty.

Nid oedd cydymffurfiaeth ddigonol bob amser mewn perthynas â rheoli risg. Roedd oedi wrth brosesu adroddiadau ar ddigwyddiadau, ac roedd angen rhoi sylw pellach i'r ystafell asesu iechyd meddwl er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Roedd angen atgyfnerthu'r broses o gwblhau asesiadau risg ar gyfer cleifion mewn modd amserol hefyd. Roedd yr ardal aros yn cael ei goruchwyllo'n effeithiol, ond nodwyd materion amgylcheddol a materion yn ymwneud â chyfarpar, gan gynnwys drysau nad oeddent wedi'u cloi a throlïau brys nad oeddent wedi'u selio. Aethpwyd i'r afael â'r materion hyn drwy gymryd camau ar unwaith i roi sicrwydd i ni.

Roedd gweithdrefnau atal a rheoli heintiau wedi'u sefydlu, ond roedd y gyfradd gydymffurfio ag arferion hylendid dwylo yn isel ac nid oedd unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer cleifion ag imiwnedd gwan. Roedd y prosesau diogelu yn gadarn, ond nid oedd nyrsys a oedd wedi cwblhau hyfforddiant pediatrig ar gael yn yr ardal bediatrig, ac roedd cleifion a oedd yn oedolion weithiau'n cael eu lleoli yno yn ystod cyfnodau prysur.

Roedd y rhan fwyaf o'r prosesau rheoli meddyginiaethau yn unol â safonau cenedlaethol a pholisïau'r bwrdd iechyd. Fodd bynnag, gwelsom fylchau yng nghofnodion tymheredd yr oergell storio meddyginiaeth ac nid oedd unrhyw hysbysiadau diogelwch wedi'u gosod ar ddrws yr ystafell lle roedd silindrau ocsigen yn cael eu storio. **Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn fanylach yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.**

Caiff cofnodion yr Adran Achosion Brys eu cadw ar system electronig, ond caiff dogfennaeth a gwblheir gan feddygon arbenigol o adrannau eraill sy'n adolygu cleifion yn yr Adran Achosion Brys eu cadw ar ffurf papur. Dim ond y cofnodion electronig a welsom, felly roedd hi'n anodd i ni gael darlun cyflawn a manwl o'r broses asesu a thrin gyffredinol. Byddai cyflwyno system rheoli cofnodion electronig ar gyfer y bwrdd iechyd cyfan yn gwella'r broses o gofnodi, darllen a rhannu gwybodaeth amserol ar draws gwasanaethau a rhyngddynt yn sylweddol.

Gwelsom gyfathrebu priodol rhwng staff yr Adran Achosion Brys, a oedd yn cynnwys rhannu gwybodaeth yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo shift, a oedd, ar y cyfan, yn fanwl ac yn effeithiol.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Ni chafodd AGIC sicrwydd bod y broses ar gyfer gwirio'r troli pediatriig brys yn ddigon cadarn a diogel
- Ni chafodd AGIC sicrwydd bod y prosesau rheoli meddyginiaethau yn ddigon cadarn a diogel
- Ni chafodd AGIC sicrwydd bod y broses ar gyfer gwirio'r troli 'llwybr anadlu anodd' yn ddigon cadarn a diogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried yr ystafell asesu iechyd meddwl a sicrhau bod yr ystafell yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio
- Sicrhau bod cleifion sy'n mynd i'r Adran Achosion Brys sy'n cael triniaeth cemothorapi neu sy'n fwy tebygol o gael haint yn cael eu lleoli'n briodol, er mwyn lleihau'r risg o niwed
- Agweddau ar reoli meddyginiaethau a rhoi meddyginiaethau lleddfu poen
- Atgyfnerthu'r prosesau asesu risg, gan gynnwys ar gyfer gofal briwiau pwyso a chwypadau, a sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cwblhau'n gyson.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd staff a oedd wedi cwblhau hyfforddiant yn goruchwyllo'r ardal aros yn effeithiol, ac roedd hyn yn cefnogi diogelwch y cleifion
- Dangoswyd bod gofal ar gyfer cleifion anhwylyd yn cael ei uwchgyfeirio'n effeithiol
- Roedd fferyllfa, gwasanaethau therapi galwedigaethol, a ffisiotherapi ar gael yn yr Adran Achosion Brys.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**



Crynodeb cyffredinol:

Roedd aelodau tîm arwain yr Adran Achosion Brys yn weladwy, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i wella'r gwasanaeth. Dywedodd y staff eu bod wedi cael profiadau cadarnhaol yn yr adran ar y cyfan, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr yr Adran Achosion Brys, ond nid oedd rhai yn teimlo eu bod yn cael cymaint o gefnogaeth gan uwch-reolwyr y tu hwnt i'r Adran Achosion Brys.

Gwelsom fod lefelau derbyniol o staff nyrsio yn yr adran ac mai prin y defnyddiwyd staff asiantaeth. Er bod yr adran yn brysur, roedd y staff yn ymdopi'n dda ac yn rhoi sylw i anghenion y cleifion. Fodd bynnag, nid oedd Metron ar gael yn yr Adran Achosion Brys ar adeg yr arolygiad ac ychydig iawn o feddygon ymgynghorol oedd ar gael. Dim ond un meddyg ymgynghorol locwm oedd yn cael ei gyflogi ac nid oedd unrhyw feddyg ymgynghorol ar gael ar y safle yn ystod y nos ac ar benwythnosau.

Ar y cyfan, roedd diwylliant cadarnhaol, cefnogol a chynhwysol yn yr adran, ac roedd y saff yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Gallai cleifion roi adborth yn uniongyrchol i'r staff, ac roedd systemau ffurfiol ar waith i ddelio â chwynion, a oedd yn gyson â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Roedd hysbysiadau yn rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr am y camau a gymerwyd i ymateb i bryderon, ac roedd y staff yn rhannu adborth gan gleifion ac yn dysgu o ddigwyddiadau ac adolygiadau cenedlaethol er mwyn gwella'r gwasanaeth. Nodwyd bod y prosesau ar gyfer rheoli digwyddiadau a phryderon yn briodol. Fodd bynnag, nodwyd bod cymorth gan y Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau yn anghyson.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal adolygiad o lefelau staffio'r Adran Achosion Brys a mynd i'r afael â'r canfyddiadau heb unrhyw oedi pellach
- Recriwtio i'r swyddi meddygon ymgynghorol gwag a sicrhau bod y trefniadau cyflenwi yn ddiogel, yn gadarn ac yn effeithiol yn y cyfamser
- Sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi a'u hannog i fynychu cyfarfodydd tîm yn rheolaidd
- Sicrhau bod y Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau yn darparu cymorth cyson ac effeithiol i'r Adran Achosion Brys pan fo angen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Goruchwyliaeth a chefnogaeth dda gan aelodau tîm rheoli'r Adran Achosion Brys, a oedd yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt
- Llai o ddibyniaeth ar staff asiantaeth, gyda lefelau derbyniol o staff nyrsio
- Cydymffurfiaeth dda â hyfforddiant gorfodol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Gwnaethom ymgysylltu â chleifion drwy gydol ein harolygiad, a chawsom saith ymateb i'n harolwg i gleifion. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ym mhob maes.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Roedd y rhan fwyaf o'r nyrsys yn garedig ac yn ofalgar iawn. Cefais fy nhrin yn dda iawn, ond aeth y staff yn brysur iawn wedi hynny felly doedden nhw ddim yn gallu fy helpu'n gyflym."*

*"System brosesu gyflym iawn - roedd y staff yn barod iawn i helpu ac yn gyfeillgar iawn."*

### Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

#### Hybu iechyd

Roedd gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn gwahanol rannau o'r adran, ac roedd llawer ohoni yn ddwyieithog.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol. Gwelsom aelodau o'r staff yn treulio amser gyda'r cleifion gan eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain er mwyn cynnal eu hannibyniaeth.

#### Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch, ac yn cynnal eu cyfrinachedd cymaint ag oedd yn bosibl yn yr amgylchedd. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw a'r rheini a gwblhaodd yr holiadur fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Er bod y staff yn ceisio cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion a oedd yn aros am ragor o asesiadau a thriniaeth, roedd yn amlwg ei bod hi'n fwy anodd gwneud hyn ar gyfer y cleifion hynny a oedd yn aros ar gadeiriau yn y coridorau. Fodd bynnag, roedd y staff yn ystyriol o'r angen i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion yn y

coridorau, a byddai cleifion yn cael eu symud i ardaloedd mwy priodol o'r adran pan oedd angen rhoi gofal personol iddynt.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i leihau nifer y cleifion sy'n cael gofal yn y coridorau.**

Roedd rhannau o'r adran yn lân ac yn daclus ac wedi'u haddurno'n dda.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Wrth edrych ar sampl o gofnodion cleifion, gwelsom fod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu ar sail amlddisgyblaethol ac mewn ffordd a oedd yn nodi anghenion a dymuniadau unigol y cleifion ac yn eu diwallu a'u bodloni.

## **Amserol**

### **Gofal amserol**

Roedd ardal aros yr Adran Achosion Brys yn eithaf prysur drwy gydol yr arolygiad. Fodd bynnag, roedd yr ardal aros ac ardaloedd eraill o'r Adran Achosion Brys yn dawel, er bod llawer o gleifion yn yr ardaloedd hyn.

Dywedodd tri o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael eu hasesu yn syth ar ôl iddynt gyrraedd yr adran, a dywedodd dau eu bod wedi cael eu hasesu o fewn 30 munud i gyrraedd yr adran. O blith y 10 claf y gwnaethom olrhain eu hachosion fel rhan o'n harolygiad, cafodd saith eu brysbennu o fewn 15 munud i gyrraedd yr adran, fel yr argymhellir gan y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys (RCEM), a chafodd dau eu brysbennu o fewn 30 munud i gyrraedd yr adran.

Dywedodd pum claf a ymatebodd i'r holiadur wrthym eu bod wedi aros am lai na dwy awr cyn cael eu trin neu eu hatgyfeirio, a dywedodd y ddau ymatebydd arall wrthym eu bod wedi aros rhwng dwy a phedair awr.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro amseroedd brysbennu a sicrhau bod proses uwchgyfeirio effeithiol ar waith pan fo amseroedd brysbennu yn cynyddu.**

Roedd heriau yn ymwneud â llif cleifion drwy'r Adran Achosion Brys ar brydiau. Ar y cyfan, roedd hyn y tu hwnt i reolaeth staff yr Adran Achosion Brys, ac roedd i'w briodoli'n bennaf i oedi cyn rhyddhau cleifion o ardaloedd eraill o'r ysbyty. Roedd yr oedi hyn yn deillio o'r ffaith bod cleifion yn aros am ragor o gymorth, fel adsefydlu, pecynnau gofal, neu leoliadau mewn cyfleusterau eraill ac roedd yn golygu bod yr ardal mân anafiadau yn cael ei defnyddio fel ardal ar gyfer cleifion nad oedd lle iddynt yn yr adran achosion brys. At hynny, roedd diffyg prosesau ffrydio uniongyrchol ar ôl i gleifion gael eu brysbennu, gyda chleifion yn gorfod

aros i weld meddyg cyn cael eu derbyn, eu hatgyfeirio at dimau arbenigol neu eu rhyddhau.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i wella llif cleifion drwy'r adran ac ym mhob rhan o'r ysbyty ehangach.**

Roedd cleifion â chyflyrau risg uchel lle mae amser yn y hollbwysig yn cael eu huwchgyfeirio mewn modd amserol ac yn cael eu symud o'r ardal aros i ardaloedd eraill mwy priodol yn yr adran am driniaeth.

Dywedodd staff y dderbynfa wrthym nad oeddent wedi cael hyfforddiant 'baner goch' er mwyn nodi cleifion â chyflyrau lle mae amser yn hollbwysig, neu'r rhai y mae angen eu hasesu neu ddarparu triniaeth fwy brys ar eu cyfer, yn well.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff y dderbynfa yn cwblhau hyfforddiant 'baner goch' er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus ac yn gymwys wrth nodi cleifion sy'n cyrraedd gyda chyflyrau lle mae amser yn hollbwysig neu y mae angen eu hasesu neu ddarparu triniaeth fwy brys ar eu cyfer.**

Dywedwyd wrthym fod cymorth arbenigol yn broblem o bryd i'w gilydd, er gwaethaf ymdrechion gorau staff yr Adran Achosion Brys. Nid oedd rhai meddygon arbenigol a staff y ward yn ymateb mewn modd amserol i geisiadau i asesu neu dderbyn cleifion. O ganlyniad, roedd rhai cleifion yn wynebu oedi cyn cael triniaeth ac roedd y diffyg ymateb prydlon i dderbyniadau hefyd yn cael effaith sylweddol ar lif cleifion drwy'r Adran Achosion Brys.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar gwblhau adolygiadau amserol gan dimau arbenigol yn yr Adran Achosion Brys, ac atgyfnerthu'r angen am ddull ysbyty cyfan o wella llif cleifion drwy'r Adran Achosion Brys a chyfrifoldeb a rennir am hynny.**

Roedd y broses o drosglwyddo cleifion o ambiwlansys i'r adran yn cael ei rheoli'n dda ar y cyfan a heb fawr ddim oedi. Fodd bynnag, nid oedd yr ardal asesu gyferbyn â'r bae trosglwyddo cleifion o ambiwlansys, sef ardal o'r coridor wedi'i hamgylchynu gan lenni, yn cynnig llawer o breifatrwydd i gleifion.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr ardal lle y caiff cleifion a drosglwyddir o ambiwlansys eu hasesu er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben ac yn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.**

Disgrifiodd y staff y cydberthnasau gwaith da rhwng staff yr Adran Achosion Brys a staff ambiwlansys. Roedd cleifion a oedd yn aros mewn ambiwlansys yn cael gofal da, a phe bai angen, byddai staff yr Adran Achosion Brys yn darparu gofal yn yr ambiwlans. Byddai cleifion hefyd yn cael eu trosglwyddo i'r adran er mwyn dechrau eu triniaeth a'u trosglwyddo'n ôl i'r ambiwlans wedi hynny pe bai angen.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Ar y cyfan, roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y wybodaeth yr oedd y staff yn ei rhoi, a dywedodd pob un o'r ymatebwyr i'r holiadur eu bod yn teimlo bod y staff wedi egluro'r hyn roeddent yn ei wneud ac wedi gwrando arnynt ac ateb yn eu cwestiynau.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Dywedwyd wrthym fod rhai o staff yr Adran Achosion Brys yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) a bod gwasanaethau cyfieithu ar gael i gleifion a oedd yn dymuno cyfathrebu mewn ieithoedd eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a oedd wedi'i harddangos yn yr Adran Achosion Brys ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod y staff yn ceisio rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r bobl, ni waeth beth fo'u rhywedd neu gefndir. Mae hyn yn cyd-fynd â dull Llywodraeth Cymru o ddarparu gofal o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar y claf mewn adrannau achosion brys.

Mae datganiad ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer adrannau achosion brys yn rhoi pwyslais ar ddarparu'r gofal cywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, ac roedd y staff yn ceisio gwneud hyn hyd eithaf eu gallu, mewn amgylchedd dan bwysau.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli risg

Roedd systemau priodol ar waith i gofnodi a rheoli digwyddiadau. Roedd y rhain yn cael eu cofnodi a'u rheoli ar Datix a gwelsom grynodedau o ddigwyddiadau yn ystod yr arolygiad. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno bod y rhai a oedd yn gysylltiedig â digwyddiadau yn cael eu trin yn deg a'u bod yn teimlo'n ddiogel i godi pryderon am ymarfer clinigol anniogel.

Roedd y dystiolaeth a welsom yn cadarnhau bod themâu yn cael eu monitro a'u rhannu ag uwch-reolwyr drwy adroddiadau llywodraethu a bod gwersi i'w dysgu o ddigwyddiadau yn cael eu rhoi ar waith yn gyflym drwy ddysgu, cylchlythyrau a chyfarfodydd tîm. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o oedi wrth brosesu adroddiadau ar ddigwyddiadau.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff adroddiadau ar ddigwyddiadau eu prosesu mewn modd amserol.**

Mae diffyg eglurder ynghylch argaeledd ac ymatebolrwydd cymorth diogelwch ar y safle mewn argyfyngau.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd werthuso a gwella mesurau diogelwch er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.**

Roedd yr ardal aros yn cael ei goruchwyllo'n dda gan nyrs hyfforddedig, ac roedd hyn yn helpu i gynnal diogelwch cleifion a oedd yn aros i gael rhagor o asesiadau neu driniaeth. Fodd bynnag, nid oedd y drws a oedd yn arwain o'r ardal aros i'r Adran Achosion Brys ehangach wedi'i gloi.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y drws sy'n arwain o'r ardal aros i'r Adran Achosion Brys ehangach yn cael ei gloi.**

Nid oedd yr ystafell a ddefnyddiwyd ar gyfer asesiadau iechyd meddwl yn addas at y diben gan ei bod fel arfer yn cynnwys dodrefn a chyfarpar a oedd i'w cael mewn ystafell drin arferol. Gallai hyn beri risg o niwed i'r staff a'r cleifion. At hynny, larwm galw mewn argyfwng safonol oedd wedi'i osod, a byddai larwm strided ar hyd y pedair wal a oedd o fewn cyrraedd hawdd i'r staff yn fwy priodol.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu lleoliad yr ystafell asesu iechyd meddwl a sicrhau ei bod yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.**

Gwnaethom edrych ar y troli brys pediatrig a'r troli 'llwybr anadlu anodd' a gwelsom fylchau yn y cofnodion gwiriadau. Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod y risgiau o niwed i gleifion yn cael eu rheoli'n briodol. **Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn fanylach yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.**

At hynny, nid oedd y troli brys pediatrig na'r troli llwybr anadlu anodd wedi'u selio. Roedd hyn yn golygu y gellid symud y cyfarpar, a allai olygu na fyddai cyfarpar angenrheidiol ar gael mewn argyfwng.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y troli brys pediatrig a'r troli llwybr anadlu anodd yn cael eu selio'n briodol pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.**

#### **Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Roedd yr adran yn lân ac yn daclus ar y cyfan ac roedd y staff glanhau yn weladwy drwy gydol yr arolygiad. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod yr adran yn lân iawn.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i reoli'r risg o groes-heintio. Fodd bynnag, roedd sgoriau diweddaraf yr archwiliad hylendid dwylo yn dangos cyfradd gydymffurfio o 47%.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael eu hatgoffa o'r angen i gynnal hylendid dwylo da er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.**

Nid oedd unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer cleifion canser ag imiwnedd gwan a oedd yn cyrraedd yr Adran Achosion Brys, ac nid oeddent yn cael eu ffrydio'n uniongyrchol i'r ward oncoleg. O ganlyniad, roedd cleifion o'r fath yn cael eu lleoli yn yr ardal mân anafiadau os oeddent yn sefydlog yn glinigol.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion canser ag imiwnedd gwan sy'n cyrraedd yr Adran Achosion Brys yn cael eu lleoli'n briodol, er mwyn lleihau'r risg o niwed.**

#### **Diogelu plant ac oedolion**

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth foddhaol am faterion yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion, trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a galluedd meddyliol.

Gwelsom fod gweithdrefnau diogelu priodol ar waith ar gyfer atgyfeirio ac uwchgyfeirio pryderon am ddiogelu, a mynd ar eu trywydd, a bod hyn wedi'i ategu gan Weithdrefnau Diogelu Cymru. Roedd lefelau cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant ar ddiogelu yn briodol. Fodd bynnag, nid oedd yr ardal bediatrig yn



ddiogel, a dywedwyd wrthym fod cleifion a oedd yn oedolion yn aml yn cael eu lleoli yn yr ardal hon pan fo'r adran yn brysur.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ardal bediatrig yn cael ei chadw'n ddiogel ac nad yw cleifion sy'n oedolion yn cael eu lleoli yn yr ardal hon pan fo plant yn bresennol.**

At hynny, nid oedd unrhyw nyrsys a oedd wedi cwblhau hyfforddiant pediatrig yn cael eu cyflogi yn yr Adran Achosion Brys. Roedd nyrsys oedolion hyfforddedig â rhywfaint o brofiad pediatrig yn gweithio yn yr ardal. Nid yw hyn yn cydymffurfio â chanllawiau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys sy'n nodi y dylai dwy nyrs sydd wedi cwblhau hyfforddiant pediatrig fod yn bresennol yn yr ardal hon bob amser pan fo plant yno.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nifer ddigonol o nyrsys sydd wedi cwblhau hyfforddiant pediatrig yn gweithio yn yr ardal bediatrig yn unol â chanllawiau'r RCEM.**

#### **Rheoli gwaed**

Roedd tystiolaeth o arferion da mewn perthynas â rheoli a thrallwyso cynhyrchion gwaed, a phrosesau cadw cofnodion da.

#### **Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Roedd systemau cadarn ar waith i wneud yn siŵr bod cyfarpar a dyfeisiau meddygol yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

#### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd y prosesau rheoli meddyginiaethau yn unol â safonau cenedlaethol a pholisïau'r bwrdd iechyd ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom fylchau yng nghofnodion tymheredd yr oergell storio meddyginiaeth ac nid oedd unrhyw hysbysiadau diogelwch wedi'u gosod ar ddrws yr ystafell lle roedd silindrau ocsigen yn cael eu storio. **Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn fanylach yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.**

Roedd fferylllydd dynodedig yn yr adran ac roedd cymorth ar gael i'r staff y tu allan i oriau pe bai angen. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau addas ar gyfer cael gafael ar feddyginiaethau.

#### **Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd**

Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom nad oedd asesiadau risg mewn perthynas â briwiau pwyso yn cael eu cynnal fel mater o drefn nac mewn modd amserol. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn wynebu risg o ddatblygu briwiau pwyso.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau risg mewn perthynas â briwiau pwyso yn cael eu cynnal fel mater o drefn ar gyfer cleifion y mae eu cyflwr yn gwarantu cynnal asesiad risg o'r fath.

### **Atal cwympiadau**

Er y gwelwyd staff ffisiotherapi a therapi galwedigaethol yn yr adran yn helpu cleifion i symud a chynnal eu hannibyniaeth, nid oedd asesiadau o'r risg o gwmpo yn cael eu cynnal fel mater o drefn nac mewn modd amserol ar gyfer cleifion pan fo hynny'n briodol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau o'r risg o gwmpo yn cael eu cynnal fel mater o drefn ac mewn modd amserol ar gyfer cleifion y mae eu cyflwr yn gwarantu cynnal asesiad risg o'r fath.

## **Effeithiol**

### **Gofal effeithiol**

Roedd prosesau cynllunio gofal amlddisgyblaethol ar waith a oedd yn ystyried safbwyntiau'r cleifion o ran sut roeddent y dymuno cael gofal.

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal chwe chlaf ar y safle, a gwnaethom gynnal adolygiad bwrdd gwaith oddi ar y safle o gofnodion gofal 10 claf arall. Yn ystod yr adolygiad bwrdd gwaith, gwelsom enghreifftiau lle nad oedd asesiadau cleifion wedi cael eu cwblhau neu lle nad oeddent wedi cael eu cofnodi'n gywir.

Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Nid oedd asesiadau poen wedi'u cofnodi fel mater o drefn, hyd yn oed pan oedd claf wedi cyrraedd mewn poen. Rhoddwyd analgesia i un claf ar ôl iddo gael ei asesu gan feddyg ond nid yn ystod y broses frysbenneu
- Nid oedd asesiad alcohol wedi'i gofnodi ar gyfer unrhyw un o'r cleifion y gwnaethom olrhain eu hachosion, gan gynnwys claf a oedd wedi yfed alcohol yn ôl y ddogfennaeth frysbenneu
- Nid oedd sepsis wedi cael ei ystyried na'i sgrinio ar gyfer unrhyw un o'r cleifion y gwnaethom olrhain eu hachosion
- Nid oedd asesiadau galluedd wedi'u cofnodi ar gyfer unrhyw un o'r cleifion y gwnaethom olrhain eu hachosion i gynnwys anghenion gofal iechyd meddwl
- Dim cyfeiriad at y trefniadau Peidiwch â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd (DNACPR) na thrafodaeth amdanynt

- Ni chynhaliwyd asesiad risg wrth frysbenneu dau glaf a ddaeth i'r adran gydag anghenion gofal iechyd meddwl ac nid oedd disgrifiad o'r unigolion wedi'i gofnodi rhag ofn iddynt ddianc
- Cafodd claf oedrannus ei ryddhau o'r ysbyty am 2.30am heb i unrhyw asesiad risg gael ei ddogfennu nac unrhyw gofnod o'r ffordd y byddai'n mynd adref
- Ni chafodd claf a oedd wedi cymryd gorddos o gyffuriau unrhyw brofion gwaed nac adolygiad meddygol, ac ar ôl iddo wrthod adolygiad iechyd meddwl, cafodd ei ryddhau o'r adran heb unrhyw dystiolaeth i ddangos bod asesiad risg wedi cael ei gwblhau
- Mewn perthynas â chofnodion tri chlaf pediatrig, nid oedd unrhyw gofnod o bwy ddaeth gyda'r plentyn i'r adran nac unrhyw gofnod o unrhyw bryderon diogelu mewn perthynas â'r anafiadau.
- Yn achos dau glaf a gafodd eu derbyn, nid oedd unrhyw gofnod i ddangos bod un o feddygon yr Adran Achosion Brys wedi eu harchwilio nac unrhyw sôn am gyswllt blaenorol ag unrhyw un o'r timau arbenigol.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau cleifion yn cael eu cwblhau a'u dogfennu'n llawn.**

#### **Maeth a hydradu**

Roedd bwyd a diod ar gael i'r cleifion pan fo angen, ac ar y cyfan, roedd anghenion maeth a hydradu'r cleifion yn cael eu diwallu yn yr adran. Roedd hyn yn cynnwys y cleifion a oedd yn aros mewn ambiwlansys y tu allan i'r adran. Gwelwyd bod cleifion yr oedd angen help arnynt i fwyta neu yfed yn cael cymorth gan y staff.

Roedd siartiau cydbwysedd hylifau yn cael eu defnyddio lle y nodwyd hynny. Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cael eu cwblhau'n gyson, ac nid oeddent yn rhoi darlun cywir o gymeriant hylif y cleifion na'r hylif a gynhyrchwyd ganddynt.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau cydbwysedd sy'n cofnodi cymeriant hylif y cleifion a'r hylif a gynhyrchwyd ganddynt yn cael eu cwblhau'n gyson.**

#### **Cofnodion cleifion**

Er bod ansawdd y prosesau cadw cofnodion yn yr Adran Achosion Brys yn dda ar y cyfan, gwelsom rai anghysondebau neu ddiffyg manylder yn rhai o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt, gan gynnwys asesiadau risg a siartiau cydbwysedd hylifau, fel y nodwyd eisoes. Roedd yn anodd darllen cofnodion ysgrifenedig rhai o'r meddygon.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennaeth y staff yng nghofnodion y cleifion yn rhoi digon o fanylion clinigol/manylion am ofal, a bod cofnodion yn cael eu cwblhau'n gyson ac yn ddarllenadwy.**

Roedd cofnodion yr Adran Achosion Brys yn cael eu cadw ar system electronig, ond roedd dogfennaeth a gwblhawyd gan feddygon arbenigol o adrannau eraill a oedd yn adolygu cleifion yn yr Adran Achosion Brys yn cael eu cadw ar ffurf papur. Dim ond y cofnodion electronig a welsom, felly roedd hi'n anodd cael darlun cyflawn a manwl o'r broses asesu a thrin gyffredinol. Byddai cyflwyno system rheoli cofnodion electronig ar gyfer y bwrdd iechyd cyfan yn gwella'r broses o gofnodi, darllen a rhannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau a rhyngddynt yn sylweddol.

**Dylai'r bwrdd iechyd ystyried rhoi system rheoli cofnodion electronig ar waith ar gyfer y gwasanaeth cyfan er mwyn hwyluso cyfathrebu cadarn a sicrhau parhad gofal effeithiol.**

## **Effeithlon**

### **Effeithlon**

Gwnaethom siarad â nifer o aelodau o staff clinigol yn yr Adran Achosion Brys, a dangosodd pob un ohonynt awydd i ddarparu gofal o safon dda i'r cleifion. Gwelsom hefyd fod arweinyddiaeth dda yn yr Adran Achosion Brys.

Gwelsom ymatebion effeithiol i gleifion â symptomau cyflyrau lle mae amser yn hollbwysig, ac i'r cleifion hynny yr oedd eu cyflwr wedi gwaethygu tra roeddent yn yr adran. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd nyrs frysbennu ddynodedig ffurfiol ar ddyletswydd dros nos nac unrhyw staff Asesu a Brysbennu Cyflym (RAT) dynodedig i drosglwyddo cleifion o ambiwlansys, a bod y rôl hon yn cael ei chyflawni gan brif staff yr Adran Achosion Brys.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau brysbennu a sicrhau bod y rôl hon yn cael ei chyflawni gan nifer digonol o staff cymwys sy'n meddu ar gymwysterau addas.**

Gwelsom gyfathrebu priodol rhwng staff yr Adran Achosion Brys, a oedd yn cynnwys rhannu gwybodaeth yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo shift, a oedd, ar y cyfan, yn fanwl ac yn effeithiol.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan staff

Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am weithio yn yr adran ac yn ymrwymedig i wella ansawdd y gofal a roddir. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr yr Adran Achosion Brys. Fodd bynnag, teimlai rhai nad oeddent yn cael eu cefnogi gan uwch-reolwyr o'r tu allan i'r adran.

Cafwyd ymatebion cymysg gan y staff i'n holiadur, ac roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn ymwneud â llwyth gwaith, gofynion yr adran a'r cymorth gan dimau uwch-reolwyr o'r tu allan i'r Adran Achosion Brys.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

*"Mae'r staff yn rhoi gofal rhagorol mewn amgylchiadau heriol weithiau, fel 'gofal mewn coridorau'. Mae'r sefyllfa hon wedi gwella gan fod y timau ehangach yn yr ysbyty ac yn y gymuned wedi datblygu gwasanaethau gwell i atal derbyniadau a sicrhau llif gwell yn yr ysbyty. Mae staff yr Adran Achosion Brys bob amser yn canolbwyntio ar anghenion y cleifion er mwyn darparu cymorth ag urddas a pharch. Mae'r staff yn darparu gofal diogel ac yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i'r cleifion. Nhw yw eiriolwyr y cleifion."*

*"Mae diffyg sylweddol o ran seilwaith ac mae cleifion yn cael eu gweld yn y coridorau ar brydiau, sy'n effeithio ar breifatrwydd, urddas ac effeithiolrwydd. Hefyd, nid oes digon o uwch-aelodau o staff meddygol (meddygon ymgynghorol, arbenigwyr cyswllt) ar gael."*

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod aelodau tîm arwain yr Adran Achosion Brys yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt.

Gwelsom fod yr arweinyddiaeth a'r ymgysylltu yn dda yn yr Adran Achosion Brys, ac roedd yn amlwg bod tîm arwain yr adran yn ymrwymedig i wella'r gwasanaeth ymhellach. Fodd bynnag, nid oedd hyn bob amser yn cael ei gefnogi gan benderfyniadau a chmau gweithredu amserol gan y bwrdd iechyd.

## Y Gweithlu

### **Gweithlu medrus a galluog**

Gwelsom fod lefelau digonol o staff nyrsio yn yr adran, ac nad oedd fawr ddim dibyniaeth ar staff asiantaeth i lenwi swyddi gwag neu gyflenwi yn ystod absenoldebau. Fodd bynnag, nid oedd Metron ar gael yn yr Adran Achosion Brys ar adeg yr arolygiad. Roedd y rôl hon yn cael ei chyflawni gan un o uwch-nyrsys yr Adran Achosion Brys. Dywedwyd wrthym fod strwythur staffio'r Adran Achosion Brys wrthi'n cael ei adolygu a bod adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r bwrdd iechyd tua dwy flynedd yn ôl, ond nad oedd unrhyw gamau wedi'u cymryd o ganlyniad hynny.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd fwrw ymlaen gyda'r adolygiad o lefelau staffio'r Adran Achosion Brys a mynd i'r afael â'r canfyddiadau yn ddi-oed.**

Dim ond un meddyg ymgynghorol oedd yn cael ei gyflogi yn yr Adran Achosion Brys, sef meddyg ymgynghorol locwm. Roedd hyn yn golygu nad oedd digon o feddygon ymgynghorol ar gael yn ystod y dydd ac nad oedd unrhyw feddyg ymgynghorol ar y safle dros nod nac yn ystod y penwythnosau. Roedd meddygon ymgynghorol arbenigol yr ysbyty yn cyflenwi ar gyfer y rôl hon tan hanner nos. Roedd y bwrdd iechyd yn ystyried ffyrdd o liniaru'r prinder staff hwn drwy drefnu bod meddyg ymgynghorol ar gael o bell dros y ffôn, yn y tymor byr, nes y caiff y swyddi meddygon ymgynghorol gwag eu llenwi.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud pob ymdrech i recriwtio i'r swyddi meddygon ymgynghorol gwag a sicrhau bod y trefniadau cyflenwi yn ddiogel, yn gadarn ac yn effeithiol yn y cyfamser.**

Er bod yr adran yn brysur drwy gydol yr arolygiad, roedd yn ymddangos bod y staff yn ymdopi'n dda â'r pwysau a'u bod yn rhoi sylw i anghenion y cleifion ac yn ymateb iddynt.

Roedd prosesau da ar waith i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a bod y staff yn ei deall, gan gynnwys rhybuddion a bwletinâu. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod lefelau presenoldeb y staff mewn cyfarfodydd tîm yn wael oherwydd gofynion yr uned.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi a'u hannog i fynychu cyfarfodydd tîm yn rheolaidd.**

Roedd rhaglen hyfforddi a datblygu ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff, wedi'i chefnogi gan nyrs datblygu ymarfer a oedd yn gweithio yn yr Adran Achosion Brys.

Roedd cydymffurfiaeth dda mewn perthynas â chwblhau hyfforddiant gorfodol ymhlith y staff nyrsio a chymorth gofal iechyd.

Roedd barn y cleifion ar argaeledd hyfforddiant yn gymysg, ac yn cynnwys y canlynol:

*“Mae diffyg cyllid ar gyfer cyrsiau ychwanegol sy'n hanfodol i'r swydd. Dim ond hyfforddiant gorfodol rydyn ni'n ei gwblhau ac mae'n anodd cwblhau cyrsiau oherwydd y galw ers COVID-19.”*

Roedd proses ffurfiol ar waith i gynnal Adolygiad Arfarnu a Datblygu Perfformiad ar gyfer y staff nyrsio.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Ar y cyfan, gwelsom fod diwylliant cadarnhaol, cefnogol a chynhwysol yn yr Adran Achosion Brys, a bod y staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd.

Roedd y cleifion a'u cynrychiolwyr yn cael cyfleoedd i roi adborth ar eu profiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd.

Roedd systemau ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli cwynion, a oedd yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru.

Roedd digwyddiadau a phryderon yn cael eu rheoli'n briodol.

## Gwybodaeth

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Defnyddiwyd monitorau crwn electronig yn yr Adran Achosion Brys er mwyn helpu i ddarparu gofal a thriniaeth effeithiol i'r cleifion. At hynny, roedd system cofnodion a rheoli cleifion electronig ar waith, ac ar y cyfan, cafwyd sylwadau cadarnhaol gan y staff am y system.

Roedd y staff yn ymwybodol na ddylid gadael sgriniau cyfrifiaduron heb eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio, er mwyn atal mynediad heb awdurdod a chynnal cyfrinachedd y cleifion.

## **Dysgu, gwella ac ymchwil**

### **Gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd prosesau archwilio, adrodd ac uwchgyfeirio ffurfiol ar waith yn yr Adran Achosion Brys a oedd yn ysgogi gwelliannau o ran ansawdd.

## **Dull systemau cyfan**

### **Gweithio mewn partneriaeth a datblygu**

Roedd enghreifftiau o waith partneriaeth da rhwng gwahanol ddisgyblaethau staff a phroffesiynau o fewn yr adran ac o'r tu allan iddi, gan gynnwys gwasanaethau fferylliaeth, therapi galwedigaethol a ffisiotherapi. Fodd bynnag, nodwyd bod cymorth gan y Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau yn anghyson.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau yn darparu cymorth cyson ac effeithiol i'r Adran Achosion Brys pan fo angen.



## Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

## Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd                                                             | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|--------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------|----------------------------------------|--------------------------------|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. |                                                        |                                        |                                |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Adran Achosion Brys, Ysbyty Bronglais

Dyddiad yr arolygiad: 28 i 30 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

## Canfyddiadau

Ni chafodd AGIC sicrwydd bod y prosesau rheoli meddyginiaeth yn ddigon cadarn na diogel.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau storio meddyginiaeth a gwelsom fylchau yng nghofnodion gwirio tymheredd yr oergell.

Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod y risgiau o niwed i gleifion yn cael eu rheoli'n briodol.

| 1. Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                                                        | Safon/ Rheoliad                    | Camau gweithredu gan y gwasanaeth                                                                                  | Swyddog cyfrifol                                 | Amserlen                                  |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------|-------------------------------------------|
| Mae'n ofynnol i AGIC gael manylion am sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod mesurau ar waith i wneud yn siŵr bod tymheredd yr oergell storio meddyginiaeth yn cael ei wirio a'i gofnodi bob dydd. | Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol | Cwblhau gwiriadau o dymheredd yr oergell storio meddyginiaeth ochr yn ochr â'r gwiriadau dyddiol o'r troli adfywio | Uwch-brif Nyrs EUCC/Rheolwr Cyffredinol y System | Wedi'i gwblhau - 02/08/2025               |
|                                                                                                                                                                                                      |                                    | Rhoi gwybod i bob aelod o'r staff am y newid.                                                                      | Uwch-brif Nyrs EUCC<br>Uwch-nyrs                 | Wedi'i gwblhau - 02/08/2025<br>30/09/2025 |

|  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |  |  |
|--|--|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|
|  |  | Bydd yr uwch-dîm rheoli yn cwblhau gwiriadau wythnosol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus a rhoi sicrwydd i Reolwr Cyffredinol y System. Caiff hyn ei fonitro drwy'r adroddiad diweddar a gyflwynir yng Nghyfarfod Llywodraethu y Grŵp Gofal Clinigol nes y caiff y cynllun gweithredu ei roi ar waith yn llawn. |  |  |
|--|--|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|

## Canfyddiadau

Ni chafodd AGIC sicrwydd bod y broses ar gyfer gwirio'r troli brys pediatrig yn ddigon cadarn a diogel.

Gwnaethom edrych ar y troli brys pediatrig a gwelsom fylchau yn y cofnodion gwiriadau.

Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod y risgiau o niwed i gleifion yn cael eu rheoli'n briodol.

| 2. Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                                                | Safon/ Rheoliad                    | Camau gweithredu gan y gwasanaeth                                                                                                                                                                               | Swyddog cyfrifol                                 | Amserlen                     |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------|------------------------------|
| Mae'n ofynnol i AGIC gael manylion am y modd y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod y troli brys pediatrig yn cael ei wirio'n rheolaidd a bod cofnodion cywir o'r gwiriadau yn cael eu cynnal. | Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol | Trafod ag aelodau tîm EUCC a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r angen i gynnwys y troli brys pediatrig wrth gynnal gwiriadau dyddiol o'r troli adfywio. Anfon nodyn atgoffa ynghylch cadw cofnodion o'r gwiriadau. | Uwch-brif Nyrs EUCC/Rheolwr Cyffredinol y System | wedi'i gwblhau<br>05/08/2025 |
|                                                                                                                                                                                              |                                    | Bydd yr uwch-dîm rheoli yn cwblhau gwiriadau wythnosol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus a rhoi sicrwydd i Reolwr Cyffredinol y System. Caiff hyn ei fonitro drwy'r                                       | Uwch-nyrs                                        | 30/09/2025                   |

|  |  |                                                                                                                                               |  |  |
|--|--|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|
|  |  | adroddiad diweddarau a gyflwynir yng Nghyfarfod Llywodraethu y Grŵp Gofal Clinigol nes y caiff y cynllun gweithredu ei roi ar waith yn llawn. |  |  |
|--|--|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|

### Canfyddiadau

Ni chafodd AGIC sicrwydd bod y broses ar gyfer gwirio'r troli 'llwybr anadlu anodd' yn ddigon cadarn a diogel.

Gwnaethom edrych ar y troli 'llwybr anadlu anodd' a gwelsom fylchau yn y cofnodion gwiriadau.

Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod y risgiau o niwed i gleifion yn cael eu rheoli'n briodol.

| 3. Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                                                       | Safon/ Rheoliad                    | Camau gweithredu gan y gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                   | Swyddog cyfrifol                                         | Amserlen                     |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------|------------------------------|
| Mae'n ofynnol i AGIC gael manylion am y modd y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod y troli 'llwybr anadlu anodd' yn cael ei wirio'n rheolaidd a bod cofnodion cywir o'r gwiriadau yn cael eu cynnal. | Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol | Penodi unigolion a enwir sydd â chyfrifoldeb am sicrhau bod y gwiriadau wedi cael eu cwblhau ar y troli llwybr anadlu anodd.<br>Defnyddio bwrdd gwyn yn y prif theatrau i lunio rhestr wirio fel ei bod yn hawdd nodi unrhyw fylchau.<br>Anfon nodyn atgoffa ynghylch cadw cofnodion o'r gwiriadau. | Uwch-nyrs ar gyfer Theatrau/Rheolwr Cyffredinol y System | wedi'i gwblhau<br>04/08/2025 |
|                                                                                                                                                                                                     |                                    | Bydd yr uwch-dîm rheoli yn cwblhau gwiriadau wythnosol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus a rhoi sicrwydd i Reolwr Cyffredinol y System. Caiff hyn ei fonitro drwy'r adroddiad diweddarau a gyflwynir yng                                                                                      | Uwch-nyrs                                                | 30/09/2025                   |

|  |  |                                                                                                          |  |  |
|--|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|
|  |  | Nghyfarfod Llywodraethu y Grŵp Gofal Clinigol nes y caiff y cynllun gweithredu ei roi ar waith yn llawn. |  |  |
|--|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|

#### Canfyddiadau

Nid oedd unrhyw hysbysiadau diogelwch wedi'u gosod ar ddrws yr ystafell lle roedd silindrau ocsigen yn cael eu storio.

Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod y risgiau o niwed yn cael eu rheoli'n briodol.

| 4. Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                               | Safon/ Rheoliad                    | Camau gweithredu gan y gwasanaeth                | Swyddog cyfrifol    | Amserlen                  |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|--------------------------------------------------|---------------------|---------------------------|
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod hysbysiad diogelwch priodol yn cael ei roi ar ddrws yr ystafell lle y caiff silindrau ocsigen eu storio. | Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol | Sicrhau bod yr arwydd yn cael ei osod ar y drws. | Uwch-brif Nyrs EUCC | Wedi'i gwblhau 01/08/2025 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

#### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Louise Cullum

Swydd: Rheolwr Cyffredinol

Dyddiad: 5 Awst 2025

## Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Adran Achosion Brys Ysbyty Bronglais

Dyddiad yr arolygiad: 28, 29 a 30 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater                                                                                                                                               | Yr hyn sydd angen ei wella                                                                             | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Swyddog cyfrifol                        | Amserlen    |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|-------------|
| 1. Roedd rhai cleifion yn cael gofal mewn coridorau yn ystod cyfnodau prysur. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r staff gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. | Rhaid i'r Bwrdd Iechyd barhau â'i ymdrechion i leihau nifer y cleifion sy'n cael gofal yn y coridorau. | Gofal Amserol   | Parhau â'r ymdrechion penodol i wella'r llif drwy'r system a fydd yn lleihau'r angen i ofalu am bobl mewn ardaloedd anghlinigol fel y coridorau drwy'r ffrydiau gwaith 6 Nod. Mae mesurau gwelliant yn cynnwys lleihau hyd arosiadau, lleihau llwybrau gofal wedi'u hoedi a chynyddu nifer y cleifion sy'n cael eu rhyddhau cyn hanner dydd. | Triwriaeth System Integredig Ceredigion | 31 Mai 2026 |

|  |  |  |  |                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                   |                                       |
|--|--|--|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------|---------------------------------------|
|  |  |  |  | <p>Cynnal cyfarfodydd llif system gyfan i wella effeithlonrwydd a phrosesau cyfathrebu rhwng y system aciwt a'r system gymunedol.</p>                                                                                                                    | Triwriaeth System Integredig Ceredigion                           | <b>Wedi'i gwblhau</b><br>30 Medi 2025 |
|  |  |  |  | <p>Bwrw ymlaen â'r gwaith ar Ofal Brys a Gofal mewn Argyfwng gan ganolbwyntio ar fynediad, llif ac amgylcheddau. Bydd canlyniad cronol hyn yn helpu i leihau nifer y cleifion sy'n cael gofal yn y coridorau a dileu'r angen am hynny yn y pen draw.</p> | Meddygaeth Gymunedol ac Integredig Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol | 28 Chwefror 2026                      |
|  |  |  |  | <p>Lleihau'r galw - bwrw ymlaen â'r gwaith amlddisgyblaethol i roi llwybr cysylltu â meddyg ymgynghorol ar waith o feddygon teulu a</p>                                                                                                                  | Pennaeth Nyrsio System Integredig Ceredigion                      | <b>Wedi'i gwblhau</b><br>30 Medi 2025 |



|    |                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                                                                            |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                                                                                 |                                                                                             |
|----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------|
|    |                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                                                                            |  | pharafeddygon i'r gwasanaeth Gofal Brys ar yr Un Diwrnod yn Aberteifi a'r gwasanaeth Gofal Brys Allgymorth ar yr Un Diwrnod fel opsiwn amgen diogel yn lle mynd i'r ysbyty.                                                                                                                                                                                                                                                   |                                                                                                                                 |                                                                                             |
| 2. | O blith y 10 claf y gwnaethom olrhain eu hachosion fel rhan o'n harolygiad, cafodd saith eu brysbennu o fewn 15 munud i gyrraedd yr adran, fel yr argymhellir gan y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys (RCEM), a chafodd dau eu brysbennu o fewn 30 munud i gyrraedd yr adran. | Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r amseroedd brysbennu a sicrhau bod proses uwchgyfeirio effeithiol ar waith pan fo amseroedd brysbennu yn cynyddu. |  | <p>Sicrhau bod amseroedd brysbennu EUCC yn glir ar yr hysbysfwrdd gweithredol a gaiff ei fonitro'n rheolaidd gan y rheolwyr gweithredol a thîm ODU newydd y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Cynnwys amseroedd brysbennu wrth drafod yn y cyfarfodydd a gynhelir ddwywaith y dydd rhwng rheolwyr clinigol y safle a'r tîm cleifion allanol mewnol. Lle y nodir bod yr amseroedd brysbennu yn anniogel, dylai rheolwr clinigol y safle</p> | <p>Rheolwr Clinigol y Safle/Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol</p> <p>Rheolwr Clinigol y Safle/Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol</p> | <p><b>Wedi'i gwblhau</b><br/>30 Medi 2025</p> <p><b>Wedi'i gwblhau</b><br/>30 Medi 2025</p> |

|    |                                                                     |                                                                           |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                         |                |
|----|---------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------|--|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|----------------|
|    |                                                                     |                                                                           |  | <p>sicrhau bod yr adran achosion brys yn rhoi cynllun ar waith nes bod yr amseroedd aros o fewn y terfynau diogel unwaith eto.</p> <p>Adolygu'r prosesau uwchgyfeirio er mwyn sicrhau ymateb y cytunwyd arno a gaiff ei gyfleu'n dda i amseroedd aros hir ar gyfer brysbennu. Caiff hyn ei fonitro gan yr uwch-reolwyr sy'n bresennol yn y cyfarfodydd llif system gyfan yn rheolaidd er mwyn rhoi sicrwydd a bydd yr uwch-reolwyr yn monitro'r dangosfwrdd gweithredol.</p> | Triwriaeth System Integredig Ceredigion | 31 Mawrth 2026 |
| 3. | Roedd rhai heriau o ran llif cleifion drwy'r Adran Achosion Brys ar | Rhaid i'r Bwrdd lechyd barhau â'i ymdrechion i wella llif cleifion drwy'r |  | Gweler cam gweithredu argymhelliaid 1 mewn perthynas â'r gwelliannau i lif cleifion.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                         |                |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                   |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                                                                               |                                             |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------|--|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------|
| <p>brydiau a oedd yn golygu bod yr ardal mân anafiadau yn cael ei defnyddio fel ardal ar gyfer cleifion nad oedd lle iddynt yn yr adran achosion brys. At hynny, roedd diffyg prosesau ffrydio uniongyrchol ar ôl i'r cleifion gael eu brysbennu ac roedd yn rhaid iddynt aros i weld meddyg cyn cael eu derbyn i'r ysbyty, eu hatgyfeirio at dimau arbenigol neu eu rhyddhau o'r ysbyty.</p> | <p>adran ac ym mhob rhan o'r ysbyty ehangach.</p> |  | <p>Bwrw ymlaen â'r prosiect i ailddylunio llwybrau clinigol (bwriedir rhoi'r prosiect hwn ar waith fel rhan o'r gwelliannau i lif y system gyfan). Bydd hwn yn ddull gweithredu dynamig ac integredig ar draws gofal cymunedol, gofal sylfaenol a gofal aciwt a bydd angen ystyried y nifer uchel o arbenigeddau meddygon ymgynghorol unigol.</p> <p>Fel rhan o'r ffrwd waith llwybrau clinigol, byddwn yn archwilio'r gwaith o ddatblygu gwasanaeth Gofal Brys ar yr Un Diwrnod integredig yn y Ganolfan Achosion Brys a Gofal Brys (EUCC). Er mwyn gwneud hyn, caiff EUCC ei had-drefnu i leihau capasiti'r Uned Penderfyniadau Clinigol a</p> | <p>Triwriaeth System Integredig Ceredigion</p> <p>Triwriaeth System Integredig Ceredigion</p> | <p>30 Ebrill 2026</p> <p>30 Ebrill 2026</p> |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------|--|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------|

|    |                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                    |                  |
|----|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|------------------|
|    |                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  | datblygu Gwasanaeth Gofal Brys ar yr Un Diwrnod nad yw'n cynnwys gwelyau yn ogystal â Gweithdrefn Weithredu Safonol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |                    |                  |
| 4. | Dywedodd staff y dderbynfa wrthym nad oeddent wedi cael hyfforddiant 'baner goch' er mwyn nodi cleifion â chyflyrau lle mae amser yn y fantol yn well, neu'r rhai y mae angen eu hasesu neu ddarparu triniaeth fwy brys ar eu cyfer. | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff y dderbynfa yn cwblhau hyfforddiant 'baner goch' er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus ac yn gymwys wrth nodi cleifion sy'n cyrraedd gyda chyflyrau lle mae amser yn hollbwysig neu y mae angen eu hasesu neu ddarparu triniaeth fwy brys ar eu cyfer. |  | Sicrhau bod staff y dderbynfa yn hyderus wrth nodi cleifion â chyflyrau lle mae amser yn hollbwysig. Bydd pob aelod o staff y dderbynfa yn cwblhau hyfforddiant Llywio Gofal Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) sy'n cynnwys nodi sefyllfaoedd baner goch. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys cyfeirio cleifion yn ddiogel ac uwchgyfeirio cleifion y mae angen iddynt gael eu hasesu neu'r rhai y mae angen triniaeth frys arnynt mewn modd amserol. | Arweinydd Tîm EUCC | 28 Chwefror 2026 |

|    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                   |  |                                                                                                                        |  |  |
|----|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|
| 5. | <p>Roedd cymorth arbenigol yn broblem ar brydiau er gwaethaf ymdrechion gorau staff yr Adran Achosion Brys. Nid oedd rhai meddygon arbenigol a staff y ward yn ymateb mewn modd amserol i geisiadau i asesu neu dderbyn cleifion. O ganlyniad, roedd rhai cleifion yn wynebu oedi cyn cael triniaeth ac roedd y diffyg ymateb prydlon i dderbyniadau hefyd yn cael effaith sylweddol ar lif cleifion drwy'r Adran Achosion Brys.</p> | <p>Rhaid i'r Bwrdd lechyd barhau i ganolbwyntio ar y maes hwn ac atgyfnerthu'r angen am ddull ysbyty cyfan o wella llif cleifion drwy'r Adran Achosion Brys a chyfrifoldeb a rennir am hynny.</p> |  | <p>Yn unol ag argymhelliad 2, ailddylunio Llwybrau Clinigol a'r Gwasanaeth Gofal Brys ar yr Un Diwrnod Integredig.</p> |  |  |
|----|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|

|    |                                                                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                 |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                                 |                |
|----|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------|----------------|
| 6. | Nid oedd yr ardal asesu gyferbyn â'r bae trosglwyddo cleifion o ambiwlansys, sef ardal o'r coridor wedi'i hamgylchynu gan lenni, yn cynnig llawer o breifatrwydd i gleifion. | Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr ardal lle y caiff cleifion a drosglwyddir o ambiwlansys eu hasesu er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben ac yn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. |  | Nodi'r cyfyngiadau gofodol presennol yn yr adran.<br><i>Noder: nid yw'n ymarferol i ni symud yr ardal asesu a brysbennu cyflym. Fodd bynnag, nid yw'r coridor rydym yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn brysur iawn a dim ond y staff sy'n ei ddefnyddio fwyaf, sy'n lleihau'r posibilrwydd y bydd unrhyw beth yn amharu ar y cleifion. Fel rhan o gam nesaf y gwaith o ad-drefnu EUCC, rhoddir ystyriaeth i ehangu capasiti'r adran, a fydd yn helpu i drosglwyddo cleifion yn uniongyrchol i ardaloedd asesu dynodedig. Mae'r datblygiad hwn yn cydfynd â'r rhaglen gwella llif cleifion ehangach o dan y fframwaith 6 Nod. Unwaith y bydd ar waith,</i> | Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol | 30 Ebrill 2026 |
|----|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------|----------------|

|    |                                                                                                                                                                                 |                                                                                                                                                                         |              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                                                             |                                                                      |
|----|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------|
|    |                                                                                                                                                                                 |                                                                                                                                                                         |              | <i>dim ond yn ystod cyfnodau o bwysau gweithredol eithriadol y bydd yr ardal brysbennu cyflym bresennol yn cael ei defnyddio.</i>                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                             |                                                                      |
| 7. | Roedd rhywfaint o oedi wrth brosesu atgyfeiriadau yn ymwneud ag adroddiadau ar ddigwyddiadau gan mai dim ond nifer bach o staff oedd wedi cwblhau hyfforddiant ar y broses hon. | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff adroddiadau ar ddigwyddiadau eu prosesu mewn modd amserol a bod nifer digonol o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y broses hon. | Gofal Diogel | <p>Sicrhau bod y gweithlu meddygon ymgynghorol wedi cwblhau hyfforddiant ar reoli digwyddiadau a phrosesau ymchwilio. Disgwylir i'r datblygiad hwn wella amseroldeb ac ansawdd rhoi gwybod am ddigwyddiadau a'u prosesu, gan sicrhau dull mwy cyson ac ymatebol o ddysgu gwersi o ddigwyddiadau.</p> <p>Fel rhan o'r Broses Newid Sefydliadol presennol, ystyried y cynnig i gyflwyno Uwch-nyrs ddynodedig ar gyfer Gofal mewn Argyfwng a</p> | <p>Rheolwr Cyffredinol System Integredig Ceredigion</p> <p>System Integredig Ceredigion Pennaeth Nyrsio</p> | <p><b>Wedi'i gwblhau</b><br/>30 Medi 2025</p> <p>30 Mehefin 2026</p> |

|    |                                                                                                                        |                                                                                                                   |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |  |  |
|----|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|
|    |                                                                                                                        |                                                                                                                   |  | <p>Gofal Brys, a fydd yn gwella amseroldeb a chysondeb ymchwiliadau i ddigwyddiadau a gwersi a ddysgwyd yn sylweddol.</p> <p><i>Noder - yn y cyfamser, mae'r broses o reoli digwyddiadau yn cael ei monitro drwy gyfarfodydd sicrwydd lleol, a chaiff digwyddiadau eu huwchgyfeirio at Gyfarfod Ansawdd, Iechyd a Diogelwch y Grŵp Gofal am oruchwyliaeth a sicrwydd.</i></p> |  |  |
| 8. | <p>Nid oedd tîm diogelwch dynodedig ar y safle ac roedd y staff yn dibynnu ar gymorth gan yr heddlu mewn argyfwng.</p> | <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd werthuso a gwella mesurau diogelwch er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.</p> |  | <p><i>Noder: mae'r diffyg hwn o ran tîm diogelwch ar y safle wedi'i gynnwys ar gofrestr risgiau corfforaethol y Bwrdd Iechyd gyda sgôr o 16.</i></p>                                                                                                                                                                                                                          |  |  |



|  |  |  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                                                                                           |                                                                                                                   |
|--|--|--|--|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  |  |  |  | <p>Recriwtio pedwar swyddog trais ac ymddygiad ymosodol.</p> <p>Parhau i fonitro nifer y digwyddiadau trais ac ymddygiad ymosodol a dysgu drwy gyfarfodydd Ansawdd, Iechyd a Diogelwch y Grŵp Gofal.</p> <p>Parhau i gael cymorth allanol mewn perthynas â diogelwch ar y safle, pan fo unigolion risg uchel yn cael eu cefnogi ar y safle.</p> <p>Noder: Mae'r porthorion wedi cael hyfforddiant ar ymateb i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â thrais, ymddygiad ymosodol, a chleifion sydd wedi dianc, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gweithredu'n ddiogel ac</p> | <p>Rheolwr Iechyd a Diogelwch</p> <p>Rheolwr Iechyd a Diogelwch/Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol</p> <p>Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol</p> | <p>31 Ionawr 2026</p> <p><b>Wedi'i gwblhau</b><br/>31 Medi 2025</p> <p><b>Wedi'i gwblhau</b><br/>30 Medi 2025</p> |
|--|--|--|--|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

|    |                                                           |                                                                          |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                      |                                                                      |
|----|-----------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------|--|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------|
|    |                                                           |                                                                          |  | <p>yn briodol mewn sefyllfaoedd o'r fath. Bwrw ymlaen â'r cynllun adfer sydd ar waith, sy'n cefnogi cydymffurfiaeth barhaus ac yn atgyfnerthu cymwyseddau allweddol. Sefydlu rhaglen o waith monitro a hyfforddiant gloywi rheolaidd er mwyn cynnal safonau a sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn barod i ddelio ag unrhyw sefyllfa.</p> <p>Monitro cydymffurfiaeth drwy'r Grŵp Gofal Ystadau a Chyfleusterau a'r Grŵp Ansawdd Iechyd a Diogelwch.</p> | <p>Prif Hyfforddwr Lleihau'r Defnydd o Arferion Cyfyngol</p> <p>Pennaeth Ystadau a Chyfleusterau</p> | <p>31 Rhagfyr 2025</p> <p><b>Wedi'i gwblhau</b><br/>30 Medi 2025</p> |
| 9. | Nid oedd y drws a oedd yn arwain o'r ardal aros i'r Adran | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y drws sy'n arwain o'r ardal aros i'r |  | Gweler y ddogfen cywirdeb ffeithiol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                      |                                                                      |

|     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                                                                                           |  |                                                                                                                                                                                                                  |                                                                                           |                                                                                     |
|-----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------|
|     | Achosion Brys ehangach wedi'i gloi.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Adran Achosion Brys ehangach yn cael ei gloi.                                                                                             |  |                                                                                                                                                                                                                  |                                                                                           |                                                                                     |
| 10. | Nid oedd yr ystafell a ddefnyddiwyd ar gyfer asesiadau iechyd meddwl yn addas at y diben gan ei bod fel arfer yn cynnwys dodrefn a chyfarpar a oedd i'w cael mewn ystafell drin arferol. Roedd hyn o bosibl yn peri risg i'r cleifion a'r staff. At hynny, larwm galw mewn argyfwng safonol oedd wedi'i osod, a byddai larwm strided ar hyd y pedair wal a oedd o fewn cyrraedd hawdd i'r staff yn fwy priodol. | Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu lleoliad yr ystafell asesu iechyd meddwl a sicrhau ei bod yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio. |  | Adolygu'r asesiad risg ar gyfer yr ystafell dan sylw.<br><br>Trefnu ymweliad safle er mwyn rhoi cyngor ar y system larymau galw.<br><br>Ceisio cyngor gan dimau iechyd Meddwl mewn perthynas â'r system larymau. | Cynghorydd Iechyd a Diogelwch<br><br>Cynghorydd Diogelwch<br><br>Pennaeth Nyrsio y System | 31 Rhagfyr 2025<br><br>31 Rhagfyr 2025<br><br><b>Wedi'i gwblhau</b><br>30 Medi 2025 |
| 11. | Nid oedd y troli brys pediatrig na'r troli llwybr anadlu anodd wedi'u selio. Roedd hyn yn golygu y                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y troli brys pediatrig a'r troli llwybr anadlu anodd yn cael eu                                        |  | Er mwyn mynd i'r afael â'r risg y gallai cyfarpar angenrheidiol gael ei symud oddi ar y troli brys                                                                                                               | Pennaeth Nyrsio yr Ysbyty                                                                 | <b>Wedi'i gwblhau</b><br>30 Medi 2025                                               |

|     |                                                                                                |                                                                                                             |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                    |                |
|-----|------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|----------------|
|     | gellid symud y cyfarpar, a allai olygu na fyddai cyfarpar angenrheidiol ar gael mewn argyfwng. | selio'n briodol pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.                                                         |  | pediatrig a'r troli llwybr anadlu anodd, mae tabiau diogelwch â sêl ddiogelwch arnynt bellach wedi cael eu gosod ar y troliâu. Mae'r tabiau hyn yn selio'r troliâu rhwng gwiriadau, sy'n rhoi sicrwydd bod y cyfarpar yn aros ar y troliâu ac yn barod i'w ddefnyddio mewn argyfwng. Caiff cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau selio a gwirio ei monitro drwy archwiliadau rheolaidd a'i hadolygu mewn cyfarfodydd sicrwydd lleol er mwyn sicrhau y caiff diogelwch a pharodrwydd eu cynnal. |                    |                |
| 12. | Roedd sgoriau diweddaraf yr archwiliad hylendid dwylo yn dangos                                | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael eu hatgoffa o'r angen i gynnal hylendid dwylo da er mwyn |  | Atgoffa'r staff o bwysigrwydd cydymffurfio ag arferion hylendid dwylo da er mwyn lleihau'r risg o                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | Arweinydd Tîm EUCC | 31 Hydref 2025 |

|  |                             |                                 |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                 |                                                     |
|--|-----------------------------|---------------------------------|--|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------|
|  | cyfradd gydymffurfio o 47%. | lleihau'r risg o groes-heintio. |  | <p>haint a chefnogi gofal cleifion diogel, ac atgyfnerthu'r neges hon drwy gynnal sgrymiau diogelwch a gosod arwyddion gweledol yn yr ardaloedd clinigol.</p> <p>Parhau i fonitro cydymffurfiaeth drwy gynnal archwiliadau hylendid dwylo rheolaidd a monitro Heintiau a Gafwyd drwy Ofal lechyd, gan adolygu'r canlyniadau mewn cyfarfodydd sicrwydd lleol a'u huwchgyfeirio fel y bo angen at Gyfarfodydd Ansawdd, lechyd a Diogelwch y Grŵp Gofal er mwyn sicrhau goruchwyliaeth a gwelliant.</p> <p>Cyflwyno rôl Uwch-reolwr Nyrso EUCC i'r</p> | <p>Uwch-nyrs</p> <p>Triwriaeth System Integredig Ceredigion</p> | <p>31 Gorffennaf 2026</p> <p>31 Gorffennaf 2026</p> |
|--|-----------------------------|---------------------------------|--|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------|

|     |                                                                                                                                                                                            |                                                                                                                                                                              |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                       |                                               |
|-----|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------|-----------------------------------------------|
|     |                                                                                                                                                                                            |                                                                                                                                                                              |  | <p>strwythur grŵp gofal newydd er mwyn sicrhau bod prosesau monitro a sicrhau ansawdd a diogelwch ychwanegol ar waith.</p> <p>Sicrhau y caiff unrhyw bryderon eu huwchgyfeirio at Gyfarfodydd Ansawdd, Iechyd a Diogelwch y Grŵp Gofal er mwyn sicrhau y gellir eu goruchwyllo a'u gwella'n barhaus.</p> | Uwch-nyrs             | <p><b>Wedi'i gwblhau</b><br/>30 Medi 2025</p> |
| 13. | <p>Nid oedd unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer cleifion cancer ag imiwnedd gwan a oedd yn cyrraedd yr Adran Achosion Brys, ac nid oeddent yn cael eu ffrydio'n uniongyrchol i'r ward</p> | <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion cancer ag imiwnedd gwan sy'n cyrraedd yr Adran Achosion Brys yn cael eu lleoli'n briodol, er mwyn lleihau'r risg o niwed.</p> |  | <p>Sefydlu llwybr asesu oncoleg, er mwyn galluogi cleifion sy'n cysylltu â'r llinell frysbenno i gael eu cyfeirio'n uniongyrchol i ardal asesu ddynodedig ar Ward Meurig. Bydd y llwybr hwn yn gwella</p>                                                                                                | Uwch-brif Nyrs y Ward | <p><b>Wedi'i gwblhau</b><br/>30 Medi 2025</p> |

|     |                                                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |                                              |                 |
|-----|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------|-----------------|
|     | oncoleg. O ganlyniad, roedd cleifion o'r fath yn cael eu lleoli yn yr ardal mân anafiadau os oeddent yn sefydlog yn glinigol.                                |                                                                                                                                                                                |  | mynediad amserol i ofal arbenigol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                              |                 |
| 14. | Nid oedd yr ardal bediatrig yn ddiogel, a dywedwyd wrthym fod cleifion a oedd yn oedolion yn aml yn cael eu lleoli yn yr ardal hon pan fo'r adran yn brysur. | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ardal bediatrig yn cael ei chadw'n ddiogel ac nad yw cleifion sy'n oedolion yn cael eu lleoli yn yr ardal hon pan fo plant yn bresennol. |  | Bydd y gwelliannau i'r llif cleifion a amlinellwyd yn yr ymateb i Argymhelliad 1 yn lleihau'r angen i'r ardal bediatrig gael ei defnyddio i leoli cleifion yn ystod cyfnodau o bwysau eithriadol.<br><br>Cynnal ymweliad safle ar y cyd â'r tîm diogelwch i drafod mesurau diogelwch ychwanegol ar gyfer yr ardal bediatrig a mynd i'r afael â nhw. | Cynghorydd Diogelwch                         | 31 Rhagfyr 2025 |
| 15. | Nid oedd unrhyw nyrsys a oedd wedi cwblhau hyfforddiant pediatrig yn cael eu cyflogi yn yr Adran                                                             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nifer ddigonol o nyrsys sydd wedi cwblhau hyfforddiant pediatrig                                                                            |  | <i>Noder: Rydym yn cydnabod y risg hon ac mae wedi'i chynnwys yn ein cofrestr risgiau.</i>                                                                                                                                                                                                                                                          | Pennaeth Nyrsio System Integredig Ceredigion | 30 Ebrill 2026  |

|     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                         |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                    |                  |
|-----|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|------------------|
|     | <p>Achosion Brys. Roedd nyrsys oedolion hyfforddedig â rhywfaint o brofiad pediatrig yn gweithio yn yr ardal. Nid yw hyn yn cydymffurfio â chanllawiau'r Coleg Brenhinol</p> <p>Meddygaeth Frys sy'n nodi y dylai dwy nyrs sydd wedi cwblhau hyfforddiant pediatrig fod yn bresennol yn yr ardal hon bob amser pan fo plant yno.</p> | <p>yn gweithio yn yr ardal bediatrig yn unol â chanllawiau'r RCEM.</p>                                                                                                                                  |  | <p>Bwrw ymlaen â'r adolygiad o fodel gweithlu EUCC Ysbyty Cyffredinol Bronglais, sydd eisoes ar waith. Fel rhan o hyn, byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i benodi nyrsys sydd wedi cwblhau hyfforddiant pediatrig.</p> <p>Fel mesur lliniaru dros dro, byddwn yn cynnal adolygiad trylwyr o'n llwybrau pediatrig gan gynnwys cysylltiadau â'n ward pediatrig.</p> |                    |                  |
| 16. | <p>Nid oedd asesiadau risg mewn perthynas â briwiau pwyso yn cael eu cynnal fel mater o drefn nac mewn modd amserol. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn wynebu</p>                                                                                                                                                                  | <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau risg mewn perthynas â briwiau pwyso yn cael eu cynnal fel mater o drefn ar gyfer cleifion y mae eu cyflwr yn gwarantu cynnal asesiad risg o'r fath.</p> |  | <p>Atgoffa'r staff o bwysigrwydd cwblhau asesiadau risg mewn perthynas â briwiau pwyso mewn modd amserol a chywir er mwyn atal niwed y gellir ei osgoi.</p>                                                                                                                                                                                                      | Arweinydd Tîm EUCC | 30 Tachwedd 2025 |



|  |                                 |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                 |                                                                         |
|--|---------------------------------|--|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------|
|  | risg o ddatblygu briwiau pwyso. |  | <p>I gefnogi hyn, cyflwyno hapwiriadau rheolaidd ac archwiliadau o ddogfennau, gan ystyried y canlyniadau mewn cyfarfodydd sicrwydd lleol. Parhau i fonitro tueddiadau mewn perthynas â rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn ymwneud â briwiau pwyso drwy'r cyfarfodydd a'u huwchgyfeiro at Gyfarfodydd Ansawdd, lechyd a Diogelwch y Grŵp Gofal i'w goruchwyllo, gan sicrhau gwyliadwriaeth, dysgu a gwelliant parhaus.</p> <p>Cyflwyno rôl Uwch-reolwr Nysio EUCC i'r strwythur grŵp gofal newydd er mwyn sicrhau bod prosesau monitro a sicrhau ansawdd a diogelwch ychwanegol ar waith.</p> | <p>Uwch-nyrs</p> <p>Triwriaeth System Integredig Ceredigion</p> | <p><b>Wedi'i gwblhau</b><br/>31 Medi 2025</p> <p>31 Gorffennaf 2026</p> |
|--|---------------------------------|--|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------|



|  |  |  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                 |                                                                       |
|--|--|--|--|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------|
|  |  |  |  | <p>gysylltiedig â chwympiadau eu monitro drwy'r cyfarfodydd hyn a'u huwchgyfeiro at Gyfarfodydd Ansawdd, Iechyd a Diogelwch y Grŵp Gofal i'w goruchwyllo lle bo angen, gan sicrhau gwyliadwriaeth, dysgu a gwelliant parhaus.</p> <p>Cyflwyno rôl Uwch-reolwr Nyrsio EUCC i'r strwythur grŵp gofal newydd er mwyn sicrhau bod prosesau monitro a sicrhau ansawdd a diogelwch ychwanegol ar waith.</p> <p>Sicrhau y caiff unrhyw bryderon eu huwchgyfeirio at Gyfarfodydd Ansawdd, Iechyd a Diogelwch y Grŵp Gofal er mwyn</p> | <p>Triwriaeth System Integredig Ceredigion</p> <p>Uwch-nyrs</p> | <p>31 Gorffennaf 2026</p> <p><b>Wedi'i gwblhau - 30 Medi 2025</b></p> |
|--|--|--|--|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------|

|     |                                                                    |                                                                                                |                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                            |                                                           |
|-----|--------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------|-----------------------------------------------------------|
|     |                                                                    |                                                                                                |                  | sicrhau goruchwyliaeth a gwelliant parhaus.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                            |                                                           |
| 18. | Roedd asesiadau cleifion yn anghyflawn neu wedi'u cofnodi'n gywir. | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau cleifion yn cael eu cwblhau a'u dogfennu'n llawn. | Gofal Effeithiol | <p>Atgoffa'r staff o bwysigrwydd cwblhau asesiadau cywir a chyflawn.</p> <p>I gefnogi hyn, cyflwyno hapwiriadau rheolaidd ac archwiliadau o ddogfennau, gan ystyried y canlyniadau mewn cyfarfodydd sicrwydd lleol. Caiff tueddiadau eu monitro drwy'r cyfarfodydd hyn a'u huwchgyfeirio at Gyfarfodydd Ansawdd, Iechyd a Diogelwch y Grŵp Gofal i'w goruchwyllo, gan sicrhau gwyliadwriaeth, dysgu a gwelliant parhaus.</p> | <p>Arweinydd Tîm EUCC</p> <p>Uwch-nyrs</p> | <p>31 Rhagfyr 2025</p> <p>Wedi'i gwblhau 31 Medi 2025</p> |

|     |                                                                                                                                                   |                                                                                                                                                             |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                                                 |                                                                     |
|-----|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------|
|     |                                                                                                                                                   |                                                                                                                                                             |  | <p>Cyflwyno rôl Uwch-reolwr Nyrzio EUCC i'r strwythur grŵp gofal newydd er mwyn sicrhau bod prosesau monitro a sicrhau ansawdd a diogelwch ychwanegol ar waith.</p> <p>Sicrhau y caiff unrhyw bryderon eu huwchgyfeirio at Gyfarfodydd Ansawdd, Iechyd a Diogelwch y Grŵp Gofal er mwyn sicrhau goruchwyliaeth a gwelliant parhaus.</p> | <p>Triwriaeth System Integredig Ceredigion</p> <p>Uwch-nyrs</p> | <p>30 Ebrill 2026</p> <p><b>Wedi'i gwblhau</b><br/>30 Medi 2025</p> |
| 19. | Nid oedd siartiau cydbwysedd hylifau yn cael eu cwblhau'n gyson, felly nid oeddent yn rhoi darlun cywir o gymeriant hylif y cleifion na'r hylif a | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau cydbwysedd sy'n cofnodi cymeriant hylif y cleifion a'r hylif a gynhyrchwyd ganddynt yn cael eu cwblhau'n gyson. |  | Gweler cam gweithredu 18                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                 |                                                                     |

|     |                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                                                                                                                      |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                     |
|-----|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|
|     | gynhyrchwyd ganddynt.                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                      |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                     |
| 20. | Roedd anghysondebau neu ddiffyg manylion yng nghofnodion rhai o'r cleifion a welsom ac roedd yn anodd darllen cofnodion ysgrifenedig rhai o'r meddygon hefyd.                                                                                                                  | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennaeth y staff yng nghofnodion y cleifion yn rhoi digon o fanylion clinigol/manylion am ofal, a bod cofnodion yn cael eu cwblhau'n gyson ac yn ddarllenadwy. |  | Gweler cam gweithredu 18                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                     |
| 21. | Roedd cofnodion yr Adran Achosion Brys yn cael eu cadw ar system electronig, ond roedd dogfennaeth a gwblhawyd gan feddygon arbenigol o adrannau eraill a oedd yn adolygu cleifion yn yr Adran Achosion Brys yn cael eu cadw ar ffurf papur. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd | Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried rhoi system rheoli cofnodion electronig ar waith ar gyfer y gwasanaeth cyfan er mwyn hwyluso cyfathrebu cadarn a sicrhau parhad gofal effeithiol.                      |  | <i>Noder: Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ymrwymedig i weithio tuag at system cofnodion di-bapur er mwyn gwella diogelwch, hygyrchedd, a pharhad gofal cleifion. Mae datblygu system cofnodion electronig a'i roi ar waith yn flaenoriaeth strategol allweddol.</i><br>Bwrw ymlaen â'r gwaith i ehangu'r seilwaith digidol a'r galluedd ar draws | Cyfarwyddwr Digidol |

|     |                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                      |                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                         |                |
|-----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|----------------|
|     | cael darlun cyflawn a manwl o'r broses asesu a thrin gyffredinol.                                                                                                                                                                                   |                                                                                                                                                                      |                  | gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cysoni â rhaglenni cenedlaethol fel mentrau lechyd a Gofal Digidol Cymru. Caiff cynnydd ei fonitro drwy strwythurau llywodraethu trawsnewid digidol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddiogel, yn effeithiol ac yn diwallu anghenion clinigol.                                              |                                         |                |
| 22. | Nid oedd nyrs frysbenneu ddynodedig ffurfiol ar ddyletswydd dros nos nac unrhyw staff Asesu a Brysbennu Cyflym (RAT) dynodedig i drosglwyddo cleifion o ambiwlansys, ac roedd y rôl hon yn cael ei chyflawni gan brif staff yr Adran Achosion Brys. | Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau brysbennu a sicrhau bod y rôl hon yn cael ei chyflawni gan nifer digonol o staff cymwys sy'n meddu ar gymwysterau addas. | Gofal Effeithlon | <p><i>Noder: mae nyrs frysbenneu ar gael yn ystod y nos ond nid yw'r rôl hon yn cael ei chyllido ar hyn o bryd.</i></p> <p>Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2026/27, byddwn yn rhoi model diwygiedig ar waith ar gyfer gweithlu EUCC yn seiliedig ar y Lefelau Staffio Nyrsys diweddaraf, gan gynnwys rolau brysbennu dros nos</p> | Triwriaeth System Integredig Ceredigion | 31 Mawrth 2027 |

|     |                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                           |            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                     |                    |
|-----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|--------------------|
|     |                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                           |            | ac Asesu a Brysbennu Cyflym dynodedig i helpu i drosglwyddo cleifion o ambiwlansys a gwneud penderfyniadau clinigol cynnar. Caiff hyn ei gyflawni fesul cam, gan ddechrau yn ystod chwarter olaf 2025/26 drwy recriwtio nyrsys band 5 ychwanegol, a byddwn yn recriwtio, yn hyfforddi ac yn lleoli fesul cam drwy gydol 2026/27. |                     |                    |
| 23. | Nid oedd Metron ar gael yn yr Adran Achosion Brys ar adeg yr arolygiad. Roedd y rôl hon yn cael ei chyflawni gan un o uwch-nyrsys yr Adran Achosion Brys. Dywedwyd wrthym fod strwythur staffio'r Adran Achosion Brys wrthi'n cael ei adolygu a bod | Rhaid i'r bwrdd iechyd fwrw ymlaen gyda'r adolygiad o lefelau staffio'r Adran Achosion Brys a mynd i'r afael â'r canfyddiadau yn ddi-oed. | Y Gweithlu | Mae'r Grŵp Gofal Clinigol wrthi'n cwblhau Proses Newid Sefydliadol. Fel rhan o'r Broses Newid Sefydliadol bresennol, ystyried y cynnig i gyflwyno Uwch-nyrs ddynodedig ar gyfer Gofal mewn Argyfwng a Gofal Brys                                                                                                                 | Y System Triwriaeth | 31 Gorffennaf 2026 |



|     |                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                                                                                                                                                                     |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |                                 |                  |
|-----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------|------------------|
|     | adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r bwrdd iechyd tua dwy flynedd yn ôl, ond nad oedd unrhyw gamau wedi'u cymryd o ganlyniad i hynny.                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                     |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |                                 |                  |
| 24. | Dim ond un meddyg ymgynghorol oedd yn cael ei gyflogi yn yr Adran Achosion Brys, sef meddyg ymgynghorol locwm. Roedd hyn yn golygu nad oedd digon o feddygon ymgynghorol ar gael yn ystod y dydd ac nad oedd unrhyw feddyg ymgynghorol ar y safle dros nod nac yn ystod y penwythnosau. | Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud pob ymdrech i recriwtio i'r swyddi meddygon ymgynghorol gwag a sicrhau bod y trefniadau cyflenwi yn ddiogel, yn gadarn ac yn effeithiol yn y cyfamser. |  | Bwrw ymlaen â'r broses recriwtio sydd ar waith ar gyfer ail feddyg ymgynghorol yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys gan gynnal cyfweiliadau yn fuan.<br><br>Dylid nodi bod tri meddyg arbenigol WTE wedi cael eu recriwtio a'u bod wrthi'n ymgymryd â'r broses gynefino. Disgwylir iddynt ddechrau yn eu swyddi ym mis Rhagfyr 2025. Bydd hyn yn sicrhau bod uwch-aelod o staff meddygol ar gael 24/7. | Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol | 28 Chwefror 2026 |

|     |                                                                                           |                                                                                                                  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                         |                |
|-----|-------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|----------------|
| 25. | Roedd lefelau presenoldeb y staff mewn cyfarfodydd tîm yn wael oherwydd gofynion yr uned. | Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi a'u hannog i fynychu cyfarfodydd tîm yn rheolaidd. |  | Fel rhan o'r cynnig sydd wrthi'n cael ei ddatblygu mewn perthynas â'r Lefelau Staffio Nyrsys diwygiedig, parhau i weithio tuag at roi strwythur mwy cadarn ar waith a fydd yn cefnogi ymgysylltiad a phresenoldeb y staff yn well.                                                                                                                                      | Triwriaeth System Integredig Ceredigion | 30 Ebrill 2026 |
|     |                                                                                           |                                                                                                                  |  | Gwella hygyrchedd drwy sicrhau bod cyfarfodydd ar gael drwy Microsoft Teams yn y dyfodol a'u bod yn cael eu recordio. Byddai hyn yn galluogi staff sy'n gweithio i ddal i fyny ar adeg sy'n addas i'w hamserlen nhw. Nod y dull hwn yw sicrhau bod pawb yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn cael eu cynnwys, hyd yn oed yn ystod cyfnodau o bwysau gweithredol uchel. | Arweinydd Tîm EUCC                      | 31 Ionawr 2026 |

|     |                                                                                                 |                                                                                                                                                                |                                       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                  |                                       |
|-----|-------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------|---------------------------------------|
|     |                                                                                                 |                                                                                                                                                                |                                       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                  |                                       |
| 26. | Fodd bynnag, nodwyd bod cymorth gan y Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Orlau yn anghyson. | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Orlau yn darparu cymorth cyson ac effeithiol i'r Adran Achosion Brys pan fo angen. | Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu | Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ymdrechion parhaus y Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Orlau o ran helpu i leihau'r galw ar EUCC. Yn ystod cyfnodau o bwysau gweithredol, gall y Rheolwr Arian ar Alwad gysylltu'n uniongyrchol â'r tîm y Tu Allan i Orlau i archwilio'r capasiti am gymorth ychwanegol. Fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar lefel y galw ar y gwasanaeth hwnnw ar y pryd. Mae'r dull cydweithredol hwn yn rhan o'n hymateb system ehangach i reoli llif a sicrhau bod cleifion yn cael gofal amserol a phriodol. | Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau y Tu Allan i Orlau | <b>Wedi'i gwblhau</b><br>30 Medi 2025 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau):** Anna Chiffi

**Swydd:** Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol

**Dyddiad:** 22 Hydref 2025 (Wedi'i ddiweddarau 11/11/2025)